

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee** held at the Penrhyn Hall, **Monday 25 November 2019** at 7.10pm

PRESENT: -	His Worship the Mayor Councillor J Wyn Williams		
	The Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum (in the Chair)		
Councillors Dylan Fearnley	Keiran Jones	Enid Parry	
D Hainge	Luke Tugwell	Mair Rowlands	
J Wynn Jones	Colin King	Elin Walker Jones	
	J M Martin		

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk and Martin Hanks, Acting Town Clerk

130/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors Les Day, Gareth Roberts, and G O Roberts.

131/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None

132/19 URGENT BUSINESS

None.

133/19 PIER PAVILION – SEWAGE DISCHARGE CONSENT

The Council received a report from the City Council's Project Officer on the Pier Pavilion toilets, which currently did not comply with Natural Resources Wales and CEFAS legislation. It was agreed that to comply with the recent lease of the Pavilion by the Council it was necessary to rectify this matter as soon as possible. A number of options for disposing of the sewage were discussed.

- RESOLVED:** i) To fit a holding tank and pumping station below the pier and establish a series of 63mm pipes to transport the waste to the Welsh Water sewer adjacent the landward end of the Pier;
ii) To obtain relevant permissions of i) above
iii) to undertake this work 'in house';
iv) to allocate £20,000 to the project, to be vired from unspent revenue allocations in the budget

134/98 REPORT OF THE INDEPENDENT REMUNERATION PANEL FOR WALES (IRPW)2019

The Town Clerk reported that there was no material change in the 2019 IRPW Report from the previous year. Councillors were reminded that if they wished to opt out of the IRPW recommended allowance of £150 they would need to inform the clerk, individually in writing.

135/19 PROPERTY / ASSET ISSUES

The Council were advised that Williams & Goodwin, who are marketing the leasehold of the Pier Restaurant had written to ask if the Council would consider selling the freehold of the property.

RESOLVED: That the request be rejected.

136/19 ANTI SOCIAL BEHAVIOUR - Cyttir Lane / Wern Road and surrounding areas

It was reported that a letter of complaint and a petition signed by local residents had been received regarding the anti-social behaviour of some youths and especially the speed which motor vehicles are being driven in and around Cyttir Lane and Wern Road.

- RESOLVED:** i) to note the Report and monitored further complaints;
ii) To forward details to Pentir Community Council.

137/19 REVIEW OF STANDING ORDERS AND FINANCIAL REGULATIONS

In accordance with the recommendations of the Internal Auditor the Town Clerk presented some revisions to the City Council's Standing Orders and Financial Regulations

RESOLVED: that the revised Standing Orders and Financial Regulations be approved and adopted.

138 /19 GEFILLIO (Soest, Germany)

Trafodwyd y gyllideb a'r polisi o ran Gefeillio Tref a nodwyd y bu cryn dipyn o newid mewn Cyngorwyr yn y blynnyddoedd diwethaf.

Councillor Hainge read out a letter from the Mayor of Soest detailing his sorrow on hearing about the passing away of former Cllr Mrs E. Butler and expressing the loss to the City of Soest as well as to Bangor.

RESOLVED:i) to request that the budget committee look at the Twinning Budget with a view to increasing the level for the next financial year; and
ii) add an item on Twinning Committee to the next Finance and General Purposes Committee Agenda.

139/19 APPOINTMENT OF SCHOOL GOVERNOR

A vacancy had occurred for a School Governor to Ysgol Ein Harglywyddes following a recent Councillor resignation.

RESOLVED that Cllr Kieran Jones, a former pupil, be appointed as the City Council's representative as School Governor to Ysgol Ein Harglywyddes.

140/19 GWYNEDD COUNCIL PLAY AREAS

It was reported that, due to budget cuts, Gwynedd County Council were looking to discuss options regarding the management and responsibility of play areas in the City.

RESOLVED: to request that this matter be discussed by the City Asset Transfer Group and report back to this Committee.

141/19 CHRISTMAS LIGHTS SWITCH-ON

It was reported that this year's Christmas lights would be switched on at 4.30pm on Thursday the 5 December. Entertainment had been arranged for around 90 minutes in the form of a local brass band and dancers

142/19 REQUEST FOR FINANCIAL ASSISTANCE & FINANCIAL DONATIONS

The Town Clerk reported that three completed applications for financial assistance had been received:-
Dawns i Bawb

Bangor Civic Society

Maesgeirchen Partnership

RESOLVED to defer consideration of this item until January 2020.

143/19 FINANCE

The Committee received:-

a) Invoices for Payment

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £19,773.17 had been approved.

b) Half-yearly Accounts

RESOLVED to accept the 2019-2020 half-yearly financial accounts to 30th September 2019.

The Meeting finished at 7.45 pm

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Nos Lun 25 o Dachwedd 2019 am 7.10 y.h.

PRESENNOL :-

Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd J Wyn Williams	Y Dirprwy Faer y Cynghorydd Owen Hurcum (yn y Gadair)	Keiran Jones	Enid Parry
Cynghorwyr Ifan James (Is-Gadeirydd)	Dylan Fearnley	Luke Tugwell	Mair Rowlands
D Hainge	J Wynn Jones	Colin King	Elin Walker Jones.
		J M Martin	

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

130/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Les Day, Gareth Roberts a G O Roberts.

131/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTTIAD PERSONOL

Dim.

132/19 MATERION BRYS

Dim.

133/19 PAFILIWN Y PIER - CANIATÂD I WAREDU CARTHION

Derbyniodd y Cyngor adroddiad gan Swyddog Prosiect Cyngor y Ddinas ar doiledau Pafiliwn y Pier, nad oedd ar hyn o bryd yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a CEFAS. Cytunwyd fod angen unioni'r mater hwn cyn gynted â phosibl er mwyn cydymffurfio â les diweddar y Pafiliwn gan y Cyngor. Trafodwyd nifer o opsiynau ar gyfer gwaredu'r carthion.

- PENDERFYNWYD:** i) Gosod tanc dal a gorsaf bwmpio o dan y pier a gosod cyfres o beipiau 63mm i gludo'r gwastraff i garthffos Dŵr Cymru sydd nesaf at ben y Pier tua'r tir;
ii) Cael y caniatâd perthnasol i wneud i) uchod
iii) gwneud y gwaith hwn yn fewnol
iv) dyrannu £20,000 i'r prosiect, i'w drosglwyddo o ddyraniadau refeniw nas gwariwyd yn y gyllideb

134/19 ARDDODIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn Adroddiad 2019 y Panel o'r flwyddyn gynt. Atgoffwyd y Cynghorwyr, os oeddent yn dymuno optio allan o'r lwfans a argymhellir gan y Panel, sef £150, y byddai angen iddynt ddweud wrth y Clerc, yn unigol ac mewn ysgrifen.

135/19 EIDDO / ASEDAU

Hysbyswyd y Cyngor fod Williams a Goodwin, sy'n marchnata lesddaliad Bwyty'r Pier, wedi ysgrifennu yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn ystyried gwerthu rhydd-ddaliad yr eiddo.

PENDERFYNWYD: Gwrthod y cais.

136/19 YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL - Lôn Cytir / Lôn y Wern a'r ardal gyfagos

Adroddwyd fod llythyr cwyno a deiseb wedi'i harwyddo gan y trigolion lleol wedi'u derbyn ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol rhai pobl ifanc ac yn arbennig, y cyflymder y mae cerbydau modur yn cael eu gyrru i mewn ac o amgylch Lôn Cytir a Lôn y Wern.

- PENDERFYNWYD:** i) nodi'r Adroddiad a monitro cwynion pellach;
ii) Anfon y manylion ymlaen i Gyngor Cymuned Pentir.

137/19 RHEOLAU SEFYDLOG A RHEOLIADAU ARIANNOL

Yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Mewnol, cyflwynodd Clerc y Dref rai newidiadau i Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol Cyngor y Ddinas.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig.

138/19 GEFEILLIO TREF (Soest, Yr Almaen)

Trafodwyd y gyllideb a'r polisi o ran Gefeillio Tref a nodwyd y bu cryn dipyn o newid mewn Cyngorwyr yn y blynnyddoedd diwethaf.

Darlennodd y Cyngorydd Hainge lythyr gan Faer Soest yn mynegi ei dristwch ar glywed am farwolaeth y cyn Gynghorydd, Mrs E Butler, a dywedodd y byddai'n golled i Ddinas Soest yn ogystal ag i Fangor.

PENDERFYNWYD: i) gofyn i bwyllgor y gyllideb edrych ar y Gyllideb Gefeillio gyda golwg ar godi'r lefel ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac
ii) ychwanegu eitem ar y Pwyllgor Gefeillio i Agenda nesaf y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

139/19 ETHOL LLYWODRAETHWR YSGOL EIN HARGLWYDDES

Roedd lle gwag ar gyfer Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Ein Harglwyddes yn dilyn ymddiswyddiad Cyngorydd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD: penodi'r Cyngorydd Kieran Jones, cyn ddisgybl, yn gynrychiolydd Cyngor y Ddinas yn Ysgol Ein Harglwyddes.

140/19 MEYSYDD CHWARAE CYNGOR GWYNEDD

Oherwydd toriadau i'r gyllideb, adroddwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried trafod opsiynau ynglŷn â rheoli a chyfrifoldeb llefydd chwarae yn y Ddinas.

PENDERFYNWYD: gofyn i'r mater hwn gael ei drafod gan Grŵp Trosglwyddo Asedau'r Ddinas ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

141/19 RHOI'R GOLEUADAU NADOLIG YMLAEN

Adroddwyd y byddai goleuadau'r Nadolig eleni yn cael eu rhoi ymlaen am 4.30pm nos Iau 5 Rhagfyr. Roedd adloniant wedi cael ei drefnu am tua 90 munud ar ffurf band pres a dawnswyr lleol.

142/19 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL A RHODDION ARIANNOL

Adroddodd Clerc y Dref fod tri chais wedi'u cwblhau am gymorth ariannol wedi dod i law:-

Dawns i Bawb
Cymdeithas Ddinesig Bangor
Partneriaeth Maesgeirchen

PENDERFYNWYD: gohirio ystyried yr eitem hon tan Ionawr 2020.

143/19 MATERION CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor:-

- a) Anfonebau i'w Talu
Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £19,773.17 wedi cael eu cymeradwyo.
- b) Cyfrifon Hanner Blwyddyn

PENDERFYNWYD derbyn cyfrifon ariannol hanner blwyddyn 2019-2020 hyd at 30 Medi 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm